

PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

COFNODION

Dyddiad: Dydd Mercher 26 Chwefror 2003

Amser: 9.15am tan 12.30pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn Bresennol:

Aelodau:

Richard Edwards, Cadeirydd

Preseli Sir Benfro

Eleanor Burnham

Gogledd Cymru

David Davies

Mynwy

Janet Davies

Gorllewin De Cymru

Sue Essex

Gogledd Caerdydd

Brian Hancock

Islwyn

Val Lloyd

Dwyrain Abertawe

Tom Middlehurst

Alun a Glannau Dyfrdwy

Karen Sinclair

De Clwyd

Phil Williams

Dwyrain De Cymru

Swyddogion:

Gerry Quarrell (eitem 2)

Yr Is-adran Cefn Gwlad

Angharad Huws (eitem 2)

Yr Is-adran Cefn Gwlad

Robert Williams (eitmau 4 a 5)

Is-adran Diogelu'r Amgylchedd

Yn bresennol:

Katherine Bryan (eitem 3)	Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC)
Deryck Steer (eitem 3)	Rheolwr Gyfarwyddwr JNCC
John Lloyd Jones (eitem 3)	Cadeirydd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Roger Thomas (eitem 3)	Prif Weithredwr, Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Ray Georgeson (eitem 4)	Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau (WRAP)
Steve Bentley (eitem 4)	Ymddiriedolaeth Amgylchedd Cymru (WET)
Lindsey Jones (eitem 4)	Ymddiriedolaeth Amgylchedd Cymru (WET)

Yr Ysgrifenyddiaeth:

Siwan Davies	Clerc y Pwyllgor
Vaughan Watkin	Dirprwy Glerc y Pwyllgor

Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau, y rhai a oedd yn bresennol ac aelodau o'r cyhoedd i'r cyfarfod Pwyllgor.

Eitem 2: Gweithredu Deddf CGHT- EPT 03-03 (p1)

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog y papur a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu darpariaethau'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CGHT) yng Nghymru.

2.2 Canolbwyntiodd cwestiynau'r Aelodau ar:

- Mapio - angen egluro'r system apeliadau a'r amserlen ar gyfer mapio tir agored a thir comin cofrestredig. Roedd y Gweinidog yn hyderus y byddwn yn cwrdd â'r amserlen ar gyfer cyhoeddi mapiau erbyn diwedd 2004.

- Hawliau Tramwy - hynt y gwaith cynhwysfawr a manwl o gofnodi'r ffyrdd tramwy cyhoeddus presennol a'r angen ar gyfer eu gwneud hwy'n haws i'w defnyddio, e.e. trwy gysylltu'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy a Chynlluniau Trafnidiaeth Lleol;
- Seilwaith - angen buddsoddi mewn cyfleusterau i'r cyhoedd ac ar gyfer gwasanaethau wardeniaid. Nodwyd bod yr awdurdodau lleol wedi derbyn £2.4 miliwn yn ychwanegol er mwyn helpu i weithredu darpariaethau Deddf CGHT, ond nid oedd y cyllid hwn wedi ei glustnodi;
- Grŵp Llywio Cyfleoedd Cefn Gwlad - angen ystyried strwythur yr aelodaeth a'r galw am well cynrychiolaeth o'r defnyddwyr, ac yn arbennig o gymunedau dinesig;
- Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) - rhesymau dros beidio â sefydlu byrddau cadwraeth i reoli AHNE. Byddwn yn parhau i adolygu hyn;
- Ffermydd Organig - a fyddai mynediad i dir fferm yn effeithio ar gais y ffermwyr i ymuno â chynllun ffermio organig y Cynulliad Cenedlaethol. Byddai swyddogion yn ceisio cyngor gan Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig y Cynulliad.

Camau i'w cymryd:

- ***Swyddogion i roi cyngor ar a fyddai mynediad i dir fferm yn effeithio ar gais y ffermwyr i ymuno â chynllun ffermio organig y Cynulliad Cenedlaethol.***

Eitem 3: Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur EPT-03-03 (p2)

3.1 Gwahoddwyd y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) i drafod ei waith a'i berthynas â'r Cynulliad Cenedlaethol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC). Croesawodd y Cadeirydd y sawl a oedd yn bresennol gan longyfarch Katharine Bryan wedi iddi gael ei phenodi'n Gadeirydd y JNCC yn ddiweddar.

3.2 Yn dilyn y cyflwyniad byr (gofynnwch am gopi), canolbwyntiodd y drafodaeth ar:

- Rôl y JNCC - y berthynas rhwng y JNCC, y gweinyddiaethau datganoledig ac asiantaethau cefn gwlad a'r potensial i'r JNCC godi ymwybyddiaeth ynghylch Cymru'n arwain ym materion amgylcheddol. Hefyd, mae hyblygrwydd JNCC a'i allu i addasu i newid strwythurol, e.e. y posibilrwydd o sefydlu un asiantaeth yr amgylchedd a chadwraeth natur yng Nghymru;
- Aelodau'r JNCC - eu rôl, a'r dull o benodi aelodau annibynnol, sy'n seiliedig ar wybodaeth arbenigol yn hytrach na chynrychiolaeth ddaearyddol;

- Staffio - gwaith yn mynd rhagddo i safoni telerau ac amodau trwy gyflogi staff yn uniongyrchol yn hytrach na thrwy'r asiantaethau cefn gwlad, a bod gofyn i'r staff gael dealltwriaeth o faterion yng Nghymru;
- Cyngor - gwaith y JNCC o ran rhoi cyngor ar effaith ffermydd gwynt y môr ar amgylchedd y môr, ac wrth ragweld effaith newid yn yr hinsawdd ar gynefinoedd a rhywogaethau;
- Teithio tramor - ystyried gwerth am arian o ran yr ymrwymadau rhyngwladol sy'n gysylltiedig â theithiau busnes i gefnogi'r Llywodraeth mewn digwyddiadau Ewropeaidd a rhyngwladol, ac yn nhiriogaethau tramor y DU.

Eitem 4: Datblygu Marchnadoedd ar gyfer Deunyddiau wedi'u Hailgylchu- EPT-03-03 (p3)

4.1 Croesawodd y Cadeirydd y sawl oedd yn bresennol. Yn dilyn ystyried adroddiad y Gweinidog ar weithredu'r Strategaeth Gwastraff ym mis Rhagfyr, esboniodd fod y Pwyllgor wedi gwahodd y Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) i roi amlinelliad o'r gwaith i ddatblygu marchnadoedd ar gyfer deunyddiau wedi'u hailgylchu yng Nghymru.

4.2 Yn dilyn cyflwyniadau byrion gan WRAP a WET (gofynnwch am gopi), canolbwyntiodd y drafodaeth ar:

- Ymwybyddiaeth y Cyhoedd – newid ffordd o fyw pobl fel eu bod yn cynhyrchu llai o wastraff, yn ail-ddefnyddio ac yn ailgylchu. Mae profiad gwledydd eraill yn dangos y byddai cwmnïoedd a siopau yn ymateb i alw'r cwsmeriaid am gynnyrch a gwasanaethau 'gwyrdd'. Roedd marchnata a oedd yn tynnu sylw at ansawdd cynnyrch wedi ei ailgylchu hefyd yn effeithiol;
- Bod yn hunangynhaliol - manteision casglu sbwriel o ochr y stryd a datblygu cyfleusterau ailgylchu lleol er mwyn lleihau'r costau cludo a'r effaith ar yr amgylchedd. Hefyd byddai'n fanteisiol i ddatblygu marchnadoedd lleol ar gyfer deunyddiau wedi eu hailgylchu;
- Cymorth ariannol – potensial ysgogiadau ariannol i hybu ail-ddefnyddio ac ailgylchu, er enghraifft cyfraddau trethi rhesymol a chosbau ariannol, fel cynyddu'r Dreth Tirlenwi, a sicrhau bod y rhai sy'n cynhyrchu gwastraff hefyd yn gyfrifol am ei waredu. Dylid ystyried gwerth economaidd 'gwastraff' a pha mor ymarferol yw prosiectau ailgylchu ac ail-ddefnyddio i fusnesau;
- Partneriaeth – gwaith WRAP a WET o ran cefnogi prosiectau lleol a darparu hyfforddiant i swyddogion awdurdod lleol, gwleidyddion a'r cwmnïoedd sy'n trin gwastraff.

Eitem 5: Mesur Masnachu Gwastraff a Gollyngiadau - EPT-03-03 (p 4)

5.1 Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror -EPT-02-03 (mins)

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2003.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

7.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor am 9.15am ddydd Mercher 12 Mawrth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Chwefror 2003